OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

## RHAN 5

Apelau Treth Gyngor

**Cymrodeddu**

**45.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn dechrau gwrandawiad neu ystyriaeth o sylwadau ysgrifenedig gan Banel Apêl, os cytunir felly mewn ysgrifen rhwng y personau a fyddai'n bartïon i'r apêl, pe deuai'r anghydfod yn destun apêl i'r Tribiwnlys Prisio, bydd y mater yn cael ei atgyfeirio ar gyfer cymrodeddu.

(2) Mewn unrhyw gymrodeddu yn unol â'r rheoliad hwn, caiff y dyfarniad gynnwys unrhyw orchymyn y gallai Panel Apêl fod wedi ei wneud mewn perthynas â'r mater, a bydd paragraff 10A o Atodiad 11 i Ddeddf 1988 yn gymwys i orchymyn o'r fath, fel y mae'n gymwys i orchmynion a gofnodir yn unol â'r Rhan hon.